YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

18 Tachwedd 2024

Annwyl Riant / Warcheidwad,




*Llysgenhadon y Coleg Cymraeg*

**Hamperi Nadolig:** Unwaith eto eleni, byddwn yn lansio ein apêl ar gyfer teuluoedd sy'n ei chael yn anodd ar yr adeg yma o'r flwyddyn. Gofynnwn yn garedig am unrhyw gyfraniad tuag at ein apêl casglu bwyd ar gyfer hamperi: Hamperi Nadolig

**Llysgenhadon:** Llongyfarchiadau i Rhys a Glain o'r Chweched am gael eu dewis fel llysgenhadon y Coleg Cymraeg a phob hwyl eleni!

**Imiwneiddio chwistrell trwynol ffliw – 5&6 Rhagfyr: Bl 7-11:** Dyma'r ddolen i lythyr rhieni Llythyr Mae'n hanfodol eich bod yn llenwi'r ffurflen gofrestru sy'n cael ei gynnwys yn y llythyr. Os nad yw cofrestru wedi'i gwblhau ni fydd eich plentyn yn gallu derbyn y brechlyn ar y dydd.

**Digwyddiadau i ddod:**

| | |
|---|---|
| 19-21/11/24 | Cynhyrchiad drama Shrec (Tocynnau dal ar gael!): Shrec |
| 21/11/24 | Gêm gyn-derfynol ysgolion Cymru, Glantaf v Coleg y Cymoedd Parc yr Arfau am 7.30pm |
| 28/11/24 | Noson Rhieni Bl13 (Glantaf) 3.15pm – 6.15pm |
| 12/12/24 | Noson Rhieni Bl9 (Glantaf) 3.15pm – 6.15pm |
| 17/12/24 | Noson Wobrwyo TGAU a safon Uwch 2024 am 6pm |
| 19/12/24 | Cyngerdd Nadolig: Capel Tabernacl am 4.30pm a 6pm |
| 20/12/24 | Diwedd tymor am 1.30pm |
| **06/01/25** | **HMS 3 – ysgol ar gau i ddisgyblion** |



*Senedd Ysgol ar Ddydd y Cofio*

**Athletau Cymru:** Llongyfarchiadau i Macsen Martins Hughes bl 10 sydd wedi cael ei ddewis i gynrychioli ysgolion Cymru mewn cystadleuaeth athletau rhyngwladol yn yr Alban ar y penwythnos.



*Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru*

**Prosiect Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru:** Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion Glantaf a fu'n rhan o'r prosiect ac a berfformiodd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yr wythnos ddiwethaf.

**Hoffem eich atgoffa o bwysigrwydd presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol.** Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol i ddatblygiad academaidd a chymdeithasol ein dysgwyr. Gofynnwn yn garedig felly i chi annog eich plentyn i ddod i'r ysgol bob dydd. Cofiwch :

- Canran presenoldeb 95%-100% sy'n rhoi'r cyfle gorau i lwyddo.
- Mewn blwyddyn, mae 85-90% presenoldeb yn golygu bod eich plentyn yn colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu y flwyddyn a all olygu tangyflawni a'r angen i gael cymorth ychwanegol.
- Mae o dan 80% yn golygu bod eich plentyn yn colli o leiaf 7 wythnos a hanner o ddysgu sydd yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar y dysgu.


Leonard Pasty a Viktoria Kroll

**Blwyddyn 11, 12 a 13 – Ffug Arholiadau:** Mi fydd y disgyblion yn derbyn amserlen arholiadau yn fuan Blwyddyn 11 – Dechrau ar 11/12/24 a Gorffen ar 17/12/24.
Blwyddyn 12 – Dechrau ar 11/12/24 a Gorffen ar 17/12/24.
Blwyddyn 13 – Dechrau ar 11/12/24 a Gorffen ar 17/12/24.

**Assistantes Ieithoedd Modern:** Hoffwn gymryd y cyfle i groesawu Leonard Pasty a Viktoria Kröll i gynorthwyo yn yr adran Ieithoedd Modern.


Taith Gerdded Noddedig - Blwyddyn 11

**Taith Gerdded BL11:** Cafwyd taith gerdded llwyddianus iawn i fyny at Gastell Coch. Diolch i bawb wnaeth noddi y disgyblion, bydd canran o'r arian yma yn mynd at Ysbyty Felindre, elusen a ddewiswyd gan fforwm disgyblion blwyddyn 11.

**Gem beldroed Cymru v Iwerddon 29/11/24:** Ar ddydd Gwener 29ain o Fedi byddwn yn mynd a Bl 7 a 12 ar daith i gefnogi Cymru v Iwerddon yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar ôl ysgol (cic gyntaf am 7.15pm). Gellir prynu tocynnau ar parentpay.


Orielodl – Murlun ar waith.

**Orielodl:** Hoffwn ddiolch i Rhys Padarn, Orielodl am ddod i fewn i gydweithio gyda criw o ddisgyblion i greu sawl murlun fydd yn cael eu harddangos o gwmpas yr adran dechnoleg.

**Pwysigrwydd Prydlondeb:** Mae prydlondeb yn bwysig i lwyddiant myfyrwyr, gan feithrin disgyblaeth, cyfrifoldeb, a pharch at eraill. Mae cyrraedd yr ysgol ar amser yn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu ymgysylltu'n llawn â dysgu'r diwrnod o'r cychwyn cyntaf, gan osgoi aflonyddwch y gall cyrraedd yn hwyr ei achosi i athrawon a chyd-ddisgyblion. Gall colli hyd yn oed ychydig funudau cyntaf gwers arwain at golli cyfleoedd i ddeall cysyniadau allweddol, gan osod naws negyddol am weddill y dydd. Y tu hwnt i fywyd ysgol, mae prydlondeb yn meithrin sgiliau bywyd sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol mewn addysg uwch ac yn y gweithle, lle mae terfynau amser a dibynadwyedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad i ddysgu, gan ddangos i gyfoedion ac athrawon bod y myfyriwr yn cymryd ei addysg o ddifrif. Mae bod ar amser yn rheolaidd yn helpu myfyrwyr i sefydlu arferion rheoli amser effeithiol, gan leihau straen a chaniatáu iddynt wneud y gorau o'u diwrnod ysgol. Ymhellach, mae prydlondeb yn hybu ymdeimlad o gymuned a pharch at ei gilydd o fewn amgylchedd yr ysgol, gan ei fod yn atgyfnerthu'r syniad bod amser pawb yn werthfawr. Pan fydd myfyrwyr yn brydlon, maent yn cyfrannu at ddiwylliant ysgol cadarnhaol lle mae dysgu a chyflawniad yn cael eu blaenoriaethu. Yn y pen draw, nid yw prydlondeb yn ymwneud â bod ar amser yn unig - mae'n ymwneud â pharatoi myfyrwyr ar gyfer oes o lwyddiant a sefydlu gwerthoedd a fydd o fudd iddynt trwy gydol eu bywyd.

Fel bob amser os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol a dilynwch ein cyfrif Instagram @Ysgol_Glantaf

Yn gywir

Mr Denis Pugh
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf


Glantaf yn Reichstag, Berlin